

PENNOD 5: TEULU'N DOD YNGHYD

Deuteronomium 12. 12

A byddwch yn llawenhau gerbron yr Arglwydd eich Duw, chwi a'ch meibion a'ch merched, eich gweision a'ch morwynion hefyd, a'r Lefiaid yn eich trefi.....

Yn fuan ar ôl ymweliad yr angel, mae Mair yn ymadael a'i chartref i deithio i dref yn Jwdea – credir mai Ein Karem yw'r dref honno – pellter o tua wyth deg milltir a thaith o nifer o ddyddiau. Mai 31 yw dyddiad gŵyl yr ymweliad i Eglwysi'r Gorllewin, tra bod yr Uniongred wedi cadw at ddyddiad Calendr Jwlian, sef Gorffennaf 2. Byddai Mair nail ai wedi cerdded yr holl ffordd neu fynd ar gefn asyn. Beth wnaeth iddi fentro ar y fath daith yn ei chyflwr a beth wnaeth iddi ruthro fel hyn? Mae'n bosibl ei bod am gael rhannu llawenydd ei chyfnither, wrth gwrs, neu ei bod yn awyddus i ddweud ei stori hi i glust lawn cydymdeimlad, neu am ei bod am gael cadarnhad o'r hyn a ddywedwyd wrthi. Ond, nid hwn fyddai'r tro cyntaf na'r olaf i ferch feichiog gael ei danfon i ffwrdd i gael ei phlentyn allan o olwg a chondemniad y cymdogion, er mwyn cuddio gwarth ei rhieni. Mae'n bosibl hefyd fod aros yn ei chartref yn Nasareth gyda'r rhieni a'i thylwyth yn rhy anghyfforddus i'r ferch ifanc. Mae hi'r un mor bosibl iddi ddianc rhag gwynebu Joseff. Beth bynnag yw'r rheswm mae'n mynd ar y daith hir.

Wrth i Fair gyrraedd tŷ'r offeiriad Sachareias a mynd i mewn, mae'n cyfarch ei chyfnither. Dywed Luc y daw'r ymateb cyntaf nid gan y wraig feichiog ond gan y bachgen yn ei chroth, sy'n llamu: Ioan Fedyddiwr yn proffwydo am y tro cyntaf.

Llenwir Elisabeth â'r Ysbryd Glân, digwyddiad anghyffredin iawn i ferched y Testament Newydd. Mae'n cyfarch ei chyfnither ifanc trwy ddweud bod y babi yn ei chroth yn "llamu o orfoledd" wrth iddo glywed llais Mair. Defnyddia Elisabeth eiriau fyddai'n cael eu hystyried yn gwbl amhriodol i ferch feichiog, ddi-briod: "Bendigedig wyt ti ymhlith gwagedd, a bendigedig yw ffrwyth dy groth.... Gwyn ei byd yr hon a gredodd y cyflawnid yr hyn a lefarwyd wrthi gan yr Arglwydd." Daw ail frawddeg yr *Ave Maria* o eiriau Elisabeth. Rhaid bod cyfarchiad Elisabeth yn dwyn cysur mawr i'w chyfnither yn wyneb ei chyflwr corfforol a chymdeithasol.

Ymateb Mair yw adrodd neu ganu'r geiriau a adnabyddir heddiw fel y *Magnificat*, sef gair y gerdd Ladin. Clywir geiriau'r gerdd hon bob dydd mewn llawer iaith o gwmpas y byd erbyn hyn.

Y mae yna debygrwydd rhwng cân Mair ac eiddo Hannah yn Llyfr Cyntaf Samuel, 2. 1-10, sef cri orfoleddus gwraig y terfynir ei diffrythdra gan ymateb Duw i'w gweddi. Mae'n werth cofio wrth fynd heibio bod llawer o'r Salmau yn symud o gonsyrn y salmydd am ei hunan at eiddo'r bobl. Felly hefyd gyda Mair yma. Wedi iddi ganu amdani hi ei hunan yn cael ei chodi o ostyngeddwrwydd i wynfyd arbennig, â ymlaen i sôn am ofal Duw dros y tlodion a'r gorthrymedig. Er i Fair ddefnyddio'r ffurf orffennol o'r ferf, ymdrecha ymlaen fel y gwnaeth y proffwydi wrth iddynt droi at y amser perffaith, gan ddweud bod addewid Duw cystal â'i weithred. Wrth iddo addo dyfodiad ei Fab, mae Duw yn gweithredu ac fe ddaw i fod felly.

Bu pobl Mair yn byw dan orthrwm estron am ganrifoedd a dim ond bradwyr yn dod o hyd i gyfoeth. Gwelwyd mai'r bobl syml, ostyngedig, yn ymddiried yn Nuw yw "tlodion y tir"; pobl fel Mair a Joseff, Elisabeth a Sachareias, bugeiliaid ac estroniaid, Simeon ac Anna yn y Deml. Mab Mair fydd cyfrwng llwyddiant ewyllys Duw, gan chwalu pob rhwystr a llanw pob agendor trwy ei neges o faddeuant, iachâd a chymod i bawb. Wrth i hyn ddigwydd, gwelir balchder yn rhoi lle i ostyngeddwrwydd, diflanna pob ymdeimlad o statws; bydd neb mewn angen a neb yn ceisio cael mwy na digon. Yn y ffordd hon y cyflawnir addewidion Duw i Abraham a'i ddisgynyddion: "Ynot ti y bendithir holl dylwythau'r ddaear."³⁰

Erys Mair yng nghartref ei chyfnither am dri mis. Paham? Efallai ei bod o help i Elisabeth hyd ddiwedd ei beichiogaeth; efallai am nad oes ganddi unrhyw le arall i fynd iddo; efallai am gymysgedd o resymau. Ond, ar ddiwedd y tri mis, mae'n ymadael. Ni roddir unrhyw esboniad am hyn ond mae'n bosibl bod Joseff, ar ôl ei freuddwyd, wedi dod amdani hi, gan ddechrau ar y broses o'i hadfer i'w chartref ac i barchusrwydd.

Dad sanctaidd, gelwaist ni i fyw fel dy blant, chwiorydd a brodyr yn gytûn, trwy hunan-aberth dy Fab, Iesu Grist ein Brawd. Dyro d'arweiniad i bob yr un ohonom trwy dy Ysbryd Glân, fel, trwy'r ffordd y mae Cristnogion yn

Y Noson Honno: Myfyrdodau trwy'r adfent gan Thomas Ivor Rees

cyd-fyw mewn cariad a chytgord, daw'r byd i'th adnabod a'th garu; trwy yr Un, Iesu Grist ein Harglwydd.

Cwestiynau i'w hystyried neu i'w trafod

A fwriedir i'r Eglwys fod yn deulu newydd i ni? Os felly, beth yw ystyr hynny yn ymarferol?

Pa driniaeth gaiff y bobl sy'n 'wahanol' i ni gan aelodau o'ch cynulleidfa chwi?